



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llangyndeyrn  
Ysgol Gynradd Llangynderyrn  
Llangyndeyrn  
Llanelli  
SA17 5BW**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan  
Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliada'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JWneu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**ⓂArgraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2016**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llangydeyrn wedi ei leoli yn Ysgol Y Fro yn y pentref. Pentref bach gwledig yw Llangydeyrn rhyw 5 milltir i'r de o Gaerfyrddin ar ffordd Pontyberem sef y B4306.

Agorwyd y feithrinfa yn 2004 ac mae wedi'i chofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ar gyfer i fyny at 10 o blant.

Mae'r feithrinfa ar agor i blant rhwng dwy a phedair oed. Mae'r plant yn symud ymlaen at y cam nesaf yn eu haddysg yn y tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ar hyn o bryd mae 10 o blant ar y gofrestr, ac o'r rhain mae dau o blant yn dair oed ac yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae'r lleoliad ar agor am bum bore'r wythnos am 39 wythnos o'r flwyddyn.

Mae'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa yn dod o'r pentref ac o'r pentrefi a'r ffermydd cyfagos. Daw dros hanner y plant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad. Mae'r feithrinfa yn croesawu plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes un o'r plant presennol wedi eu nodi fel rhai sydd ag anghenion o'r fath a does neb yn dod o gefndir ethnig.

Mae dau aelod o staff sydd â chymwysterau a phrofiad addas o weithio gyda phlant ifanc. Mae'r arweinydd presennol wedi bod yn ei swydd am dri mis a'i chynorthwydd am flwyddyn.

Mae'r lleoliad yn cael ei oruchwylio gan bwyllgor rheoli ac wedi'i gofrestru gyda Mudiad Meithrin.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan yr AGGCC yn 2012 ac ym Mai 2011 gan Estyn.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol y lleoliad</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r lleoliad</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r holl blant yn ymgartrefu'n gyflym ac maen nhw'n hapus yn y lleoliad;
- mae'r lleoliad yn arddangos ethos sy'n gynnes, yn groesawgar a chynhwysol;
- mae ymddygiad yr holl blant yn dda ac maen nhw'n dangos diddordeb yn eu gweithgareddau;
- mae'r lleoliad yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu gwerth chweil ac ysgogol i'r plant;
- mae gan yr holl blant gyfleoedd gwerthfawr i ddysgu am gadw'n iach;
- mae ansawdd y berthynas rhwng staff a phlant yn dda iawn ac yn seiliedig ar gyd-hoffter a pharch.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r lleoliad yn cael ei reoli'n dda ac mae'r ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol fel tîm;
- mae'r staff wedi ymateb yn bositif i gyngor ac arweiniad sy'n cael effaith fuddiol ar ddeilliannau a lles y plant;
- mae gan y lleoliad gynllun datblygu addas ar waith ac mae'r staff yn agored i syniadau newydd;
- mae'r pwyllgor rheoli yn cael ei hysbysu'n dda ac yn cymryd rhan weithredol wrth gefnogi'r lleoliad;
- mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Argymhellion

A1 Datblygu system ar gyfer asesu a chofnodi cyflawniadau'r plant, yn enwedig datblygiad eu medrau.

A2 Defnyddio gwybodaeth asesu er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.

A3 Pan fo'n briodol, rhoi gwybodaeth i rieni am yr hyn y gallant ei wneud i helpu eu plant i wella.

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Dim yn  
berthnasol**

### **Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau a'r iaith Gymraeg. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

### **Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar les plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Da**

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r profiadau dysgu yn cynnig ystod gwerth chweil o brofiadau diddorol ar gyfer y plant sydd wedi'u cynllunio'n dda i gymell y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd ac yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gyda phwyslais priodol ar chwarae a dysgu drwy brofiadau uniongyrchol. Er enghraifft, mae'r plant yn didoli gwrthrychau Nadolig yn ôl maint i gategoriâu mawr, canolig a bach. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob amser yn adeiladu'n systematig ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y plant. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau yn herio pob plentyn yn gyson neu'n ymestyn y rhai mwy galluog.

Mae'r lleoliad yn darparu'r plant â chyfleoedd effeithiol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae medrau gwranddo a siarad y plant yn cael eu hyrwyddo'n dda trwy weithgareddau fel amser cylch a sesiynau stori bob dydd. Mae'r plant yn dysgu adnabod eu henwau trwy hunan-gofrestru bob bore a thrwy adnabod eu enwau cyn amser byrbryd. Mae cyfleoedd gwerth chweil i'r plant edrych ar lyfrau stori ac mae geiriau sydd wedi'u hargraffu yn cael lle amlwg iawn yn y lleoliad, fel y geiriau sydd wedi'u defnyddio i ddisgrifio tân gwyllt. Mae cyfleoedd gwerthfawr yn cael eu darparu i'r plant greu marciau, fel defnyddio sialc ar eu bwrdd sialc tu allan ac i ddilyn amlinelliadau gan ddefnyddio pennau ffelt ar daflenni wedi'u lamineiddio.

Mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau rhifedd plant ar draws y cwricwlwm. Mae'r plant yn cyfrif rhai sy'n bresennol wrth gofrestru yn y bore ac yn dechrau adnabod rhifau ysgrifenedig. Yn ystod gweithgareddau corfforol, mae'r plant yn defnyddio matiau o wahanol siâp a lliw ac mae'r rhain yn cynnwys cylch, triongl, petryal, a sgwariau. Mae gweithgareddau chwarae yn y siop deganau yn canolbwyntio ar arian ac mae'r rhain yn pwysleisio defnydd arian i'r plant.

Mae cyfleoedd addas yn cael eu cynllunio er mwyn i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol - eu sgiliau echddygol manwl trwy dorri a gweithgareddau gludo a'u sgiliau echddygol bras trwy chwarae ar eu teganau symudol mawr.

Mae 'r plant yn cael cyfleoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda i ddysgu am fywyd yng Nghymru a diwylliant Cymru drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r plant yn gwisgo'n briodol ac yn blasu bwydydd Cymreig.

### **Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn fel tîm ac mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Maen nhw'n darparu amgylchedd dysgu cyffrous ac ysgogol sy'n hyrwyddo cyfranogiad a mwynhad y plant. Mae'r staff yn annog y plant i ddyfalbarhau a chanolbwyntio ar eu tasgau. Mae arferion sydd wedi'u sefydlu'n dda yn sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt ac mae'r bore yn symud ymlaen gydag ychydig o amser rhydd, os o gwbl.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio canmolïaeth yn effeithiol ac yn rheoli ymddygiad y plant yn dda iawn ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at sicrhau awyrgylch hapus, pwrpasol yn y lleoliad.

Mae'r gweithgareddau chwarae wedi'u cynllunio'n dda er mwyn helpu'r plant i ddysgu trwy chwarae ac i ymarfer sgiliau newydd, fel clapio dwylo i guriad eu henw.

Mae'r ddau ymarferydd yn fodolau iaith effeithiol iawn ac mae'r Gymraeg yn cael ei derbyn yn naturiol fel iaith y Cylch. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl y plant gan sgwrsio â nhw yn naturiol yn ystod gweithgareddau chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymwybodol o'u galluoedd. Mae dogfennaeth yn dangos bod cyflawniadau'r plant yn cael eu nodi'n rheolaidd ac mewn rhai achosion mae'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant yn cael eu nodi. Fodd bynnag, nid yw'r asesu bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar ddatblygu sgiliau'r plant ac o ganlyniad, cyfyngedig yw'r defnydd o ganlyniadau'r asesu wrth gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant. Yn ogystal, nid yw'r canlyniadau'n cael eu defnyddio'n adeiladol i gyfateb tasgau â gallu'r plant ac i ddarparu gwaith sydd wedi'i wahaniaethu'n ddigonol i gyfateb ag anghenion plant.

Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar gynnydd eu plant. Mae cyfarfodydd anffurfiol a thrafodaeth gyda'r staff yn eu cadw'n hysbys â chynnydd eu plentyn. Gwybodaeth gyfyngedig yn unig sy'n cael eu rhannu â rhieni ynglŷn â sut y gallant helpu eu plant i wella'u safonau.

## **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi a hyrwyddo iechyd a lles plant ac i annog y plant i ofalu am eu hunain. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn bwyd ac i wisgo'u cotiau eu hunain cyn chwarae tu allan. Mae'r lleoliad yn darparu bwyd a diod sy'n annog bwyta ac yfed yn iach. Mae ganddynt bwydydd iach adeg byrbryd a llaeth neu ddŵr i yfed. Mae'r plant yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol cadarn bob dydd, fel mynd ar eu teganau mawr.

Mae'r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfeirio'n dda at feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Mae safle gwledig y lleoliad yn galluogi'r plant i werthfawrogi cefn gwlad ac i gerdded i mewn i'r pentref. Mae'r rhain yn gyfleoedd da i blant werthfawrogi'r byd naturiol maen nhw'n byw ynddo.

Mae amser byrbryd yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddysgu sgiliau pwysig fel cyd-weithredu ac annibyniaeth, eistedd wrth fwrdd a sgwrsio gyda'u ffrindiau.

Mae'r lleoliad yn effeithiol wrth ddatblygu gwerthoedd y plant fel rhannu, tegwch ac ymdeimlad o'r hyn sy'n gywir ac anghywir. Mae'r plant yn dysgu sut i ofalu am eu hadnoddau dysgu ac i dacluso ar ddiwedd y gweithgareddau. Mae'r staff yn parchu ac yn gwerthfawrogi pob plentyn fel unigolyn ac mae hyn yn cael dylanwad ar y berthynas dda sy'n bodoli rhwng oedolion a phlant o fewn y lleoliad.

Trwy astudiaethau o ddiwylliannau eraill fel Diwali, mae'r plant yn dod i ddeall y byd y maen nhw'n byw ynddo a'r gwahanol arferion.

Mae trefniadau priodol yn eu lle i'r plant ddysgu am bwysigrwydd ailgylchu a chompostio bwydydd diangen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn bresennol.

## **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cynnes, croesawgar a chynhwysol. Mae'r ymarferwyr yn croesawu'r plant wrth iddynt gyrraedd ac yn dangos gofal a chonsyrn am bob plentyn ac yn sicrhau eu bod yn ymgartrefu'n gyflym. Maen nhw'n cael hawl gyfartal i'r holl weithgareddau. Mae'r staff yn annog y plant i rannu a datblygu agweddau goddefgar tuag at ei gilydd.

Mae gan y lleoliad ddau aelod o staff sydd â chymwysterau a phrofiad da sy'n gallu cwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.



Mae'r amgylchedd dan do, er yn fach, yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae defnydd da yn cael ei wneud o'r gofod sydd ar gael ac mae'r arddangosfeydd ar y wal yn dathlu gwaith y plant ac yn creu arddangosfa ysgogol a deniadol.

Mae'r adnoddau'n ddigonol ac yn addas i oedran y plant. Maen nhw'n hygyrch i bob plentyn. Mae'r meysydd dysgu yn cael eu dynodi'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson gan y plant. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r cyfleusterau tu allan sydd gan yr ysgol sy'n cynnwys iard diogel ar gyfer chwarae. Fodd bynnag, nid oes mynediad uniongyrchol i'r plant i fynd allan ond maen nhw'n defnyddio'r tu allan bob dydd os yw'r tywydd yn caniatáu. Mae'r plant yn cael eu goruchwyllo bob amser.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â'r pentref lleol ac mae hyn yn cael ei hwyluso gan ddefnyddio llwybr sydd ar wahan i'r brif ffordd.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd y lleoliad yn ei swydd ers tri mis a'i chydweithiwr ers blwyddyn. Dros y tri mis diwethaf maen nhw wedi datblygu perthynas waith gref ac wedi sefydlu ethos gofalgwr iawn yn y lleoliad. Maen nhw'n rhannu cyfrifoldebau o redeg y sesiynau yn effeithiol o ddydd i ddydd ac wedi adeiladu perthynas gadarnhaol a buddiol iawn gyda rhieni a gofalgwyr. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r plant ac mae'r rhain yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae'r lleoliad yn cael ei gefnogi'n dda iawn gan y pwyllgor rheoli a'r rhieni. Mae pwyslais cryf ar sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y plant yn y lleoliad.

Mae'r profiadau dysgu o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r lleoliad yn darparu'r plant â chyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd o fewn cwricwlwm eang. Mae cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i blant wrando ac ymateb, i edrych ar lyfrau stori ac i ddechrau ysgrifennu. Mae'r plant yn cael eu hannog i gyfrif mewn ystod eang o weithgareddau.

Nodwedd dda a nodedig yw'r pwyslais sy'n cael ei roi ar sgiliau siarad y plant ac mae hyn yn cael ei hwyluso gan fod ymarferwyr yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

Mae'r lleoliad yn arddangos agwedd hunanfeiriadol effeithiol ac mae'r staff wedi ymrwmo i wella'r ddarpariaeth lle bo hynny'n bosibl. Mae llawer iawn wedi'i gyflawni yn ystod y tri mis diwethaf gydag effaith llesol ar safonau cyflawniad y plant. Mae gwerthuso staff yn cael ei wneud yn rheolaidd ac mae'r staff yn mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn gweithredu blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys y cwricwlwm Cyfnod Sylfaen a mentrau bwyta'n iach. Mae polisiâu a gweithdrefnau priodol yn eu lle gan gynnwys rhai i sicrhau lles a diogelwch plant.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gan rannu syniadau ar sut i wella'r ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Mae trafodaethau, dros y tri mis diwethaf, wedi arwain at newidiadau sy'n cael effaith fuddiol ar safonau a lles y plant. Er enghraifft, ail-drefnu'r meysydd gweithgaredd i wneud y defnydd gorau o ofod ac i sicrhau bod yr adnoddau'n hygyrch i blant.

Mae'r ymarferwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar y ddarpariaeth o ddydd i ddydd ac yn trafod materion sy'n codi yn ystod cyfarfodydd wythnosol.

Mae'r lleoliad yn ymgynghori'n rheolaidd â rhieni, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gan roi cyfleoedd defnyddiol iddynt gyfrannu eu barn a'u syniadau. Mae'r lleoliad yn elwa o gyngor ac awgrymiadau gwerthfawr sy'n cael eu darparu gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac yn eu gweithredu. O ganlyniad, mae'r lleoliad yn gwella'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig i'r plant yn gyson.

Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn fanwl ac yn nodi'r meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae'r targedau ar gyfer gwella yn realistig ac mae cynllun datblygu effeithiol yn ei le. Mae'r cynllun yn cynnwys pwyslais da ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y plant.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau buddiol sydd o fudd i'r plant ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig at eu safonau a lles.

Mae partneriaeth agos gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r lleoliad yn annog rhieni a gofalwyr i deimlo bod croeso iddynt pan maen nhw'n dod â'u plant yn y bore. Mae gan rieni gyfleoedd da i siarad â'r staff ac i werthfawrogi'r ethos gofalggar a chefnogol sy'n amlwg yn y lleoliad. Mae rhieni hefyd yn chwarae rhan weithredol mewn gweithgareddau codi arian.

Mae'r lleoliad yn defnyddio ystafell yn yr ysgol gynradd ac mae hyn yn hwyluso'r berthynas waith agos sy'n bodoli. Mae'r plant yn teimlo'n rhan o'r ysgol a'i gweithgareddau ac yn elwa o ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol, fel yr iard ar gyfer gweithgareddau corfforol a chwarae rôl.

Mae'r cysylltiadau gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn fuddiol iawn ac wedi gwella gwaith y lleoliad yn sylweddol. Yn ogystal, mae yna gysylltiadau buddiol gyda swyddog datblygu Mudiad Meithrin. Mae cysylltiadau gyda'r gymuned leol yn datblygu ac mae gan y lleoliad fynediad diogel i'r pentref.

## **Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwys a phrofiadol ac adnoddau i sicrhau dysgu'r plant. Mae trefniadau rheoli perfformiad yn eu lle ac mae'r ymarferwyr yn cael cyfleoedd addas i fynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol.

Mae'r staff yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn rhannu amcanion y lleoliad o gyflwyno'r cyfleoedd dysgu gorau ar gyfer y plant.

Mae staff a swyddogion y Pwyllgor Rheoli yn cynnal adolygiadau manwl o'r cyllid. Maen nhw'n blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion addysgol y lleoliad ac yn defnyddio arian yn effeithlon er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn parhau i fod yn gynaliadwy.

O ystyried ansawdd y cyfleoedd dysgu sy'n cael eu darparu ar gyfer y plant, a'r gofal a'r gefnogaeth sy'n cael eu cynnig, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## **Atodiad 1**

### **Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

### **Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Y r arolygydd cofnodol

Mr Eifion R Morgan	Arolygydd Cofnodol
--------------------	--------------------

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliadac oddi ar wefan Estyn ([www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru))

## Rhestr termau

<b>AGGCC</b>	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
<b>Athro ymgynghorol awdurdod lleol</b>	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
<b>Y Cyfnod Sylfaen</b>	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
<b>Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)</b>	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
<b>Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)</b>	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
<b>Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)</b>	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
<b>Meysydd Dysgu</b>	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol</li> <li>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu</li> <li>• datblygiad mathemategol</li> <li>• datblygu'r Gymraeg</li> <li>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd</li> <li>• datblygiad corfforol</li> <li>• datblygiad creadigol</li> </ul>
<b>Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)</b>	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

<b>Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)</b>	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
<b>Mudiad Meithrin</b>	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.